monmouthshire
sir fynwy

**CABINET**
**COFNOD PENDERFYNIADAU**

**PENDERFYNIAD A BENDERFYNWYD AR: Dydd Mercher, 21 Ionawr 2026**

**DAW'R PENDERFYNIAD I RYM: Dydd Gwener 28 Ionawr 2026**
**Mae penderfyniadau a wneir gan y cabinet llawn ac aelodau unigol o'r cabinet yn agored i gael eu "galw i mewn" gan y Pwyllgor Dethol priodol. Os caiff benderfyniad ei alw i mewn, ni fydd yn dod i rym fel a nodir uchod a chaiff ei gyflwyno eto maes o law.**

**AELODAU'R CABINET YN BRESENNOL**
**Cynghorwyr Sir Mary Ann Brocklesby, Paul Griffiths, Catrin Maby, Richard John, Frances Taylor, Angela Sandles, Ian Chandler, Ben Callard, Sara Burch a Laura Wright**

**AELODAU ETHOLEDIG ERAILL YN BRESENNOL:**
**Cynghorwyr Sir**

**SWYDDOGION YN BRESENNOL**
**Jonathan Davies, Paul Matthews, Will Mclean, Jane Rodgers, Nicola Perry, Matthew Gatehouse, James Williams, Deb Hill-Howells, Craig O'Connor, Colette Bosley, Sue Hall a Nicholas Keyse**

| Rhif Eitem | Teitl | Diben, Ymgynghoriad ac Awdu | Datganiad Buddian | Penderfyniad |
|---|---|---|---|---|
| **3** | YMGYNGHORIAD STATUDOL AR GYNNIG I NEWID YSTOD OEDRAN YSGOL GYNRADD DURAND O 3-11 OED I 4-11 OED | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cytuno i ddechrau ar broses ymgynghori statudol fel y'i nodir yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (dogfen a gynhyrchwyd yn sgil Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) i gael barn ymgyngoreion ar newid ystod oedran Ysgol Gynradd Durand a chael lleoliad cymeradwy nas cynhelir ar safle'r ysgol yn lle meithrinfa yr ysgol. Bod y Cabinet yn cytuno ac yn cymeradwyo'r ddogfen ymgynghori ddrafft (atodiad 1) sy'n cynnig newid ystod oedran Ysgol Gynradd Durand o 3-11 oed i 4-11 oed. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **4** | GWERTHU DAU FWTHYN FFERM YN LEECHPOOL HOLDINGS | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cytuno y caiff y ddau fwthyn eu datgan yn ddiangen ac y gellir eu gwerthu ar y farchnad agored i wireddu derbyniad cyfalaf ac yn rhyddhau'r Cyngor rhag costau yn gysylltiedig gydag eiddo gwag. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **5** | DYRANIAD A106 CHURCH ROAD A CRICK ROAD O GYLLID A106 HAMDDEN ODDI AR Y SAFLE | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cytuno y caiff y ddau fwthyn eu datgan yn ddiangen ac y gellir eu gwerthu ar y farchnad agored i wireddu derbyniad cyfalaf ac yn rhyddhau'r Cyngor rhag costau yn gysylltiedig gydag eiddo gwag. |
| **Additional Information:** | | | | |
| **6** | CYNIGION CYLLIDEB REFENIW A CHYFALAF DRAFFT 2026/27 | Fel y nodir yn yr adroddiad | | PENDERFYNWYD: Bod y Cabinet yn cymeradwyo cyhoeddi cynigion ei gyllideb refeniw ddrafft ar gyfer 2026/27 ar gyfer ymgynghoriad fydd yn rhedeg hyd at 18 Chwefror 2026. Bod y Cabinet yn cymeradwyo rhyddhau cynigion ei gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2026/27 a chyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer 2027/28 i 2029/30 ar gyfer ymgynghoriad fel y nodir yn atodiad 4. Bod y Cabinet yn nodi'r bwlch sy'n parhau yn y gyllideb refeniw o £973,000 ar gam y gyllideb ddrafft fydd angen ei ddatrys yn llawn erbyn y bydd y Cyngor yn gosod y gyllideb derfynol ym mis Mawrth 2026. Bod y Cyngor yn nodi goblygiadau a'r ansicrwydd cyfredol yn deillio o gyhoeddiad y gyllideb ddarpariaethol ar gyfer Llywodraeth Leol gan Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn ac yn cytuno ar yr ymateb i Lywodraeth Cymru fel yr amlinellir yn atodiad 5. Bod y Cabinet yn |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | argymell defnyddio derbyniadau cyfalaf yn gyfanswm o £2,707,500 i ariannu costau refeniw yn gysylltiedig gyda newid sefydliadol sy'n cefnogi cynigion y gyllideb refeniw ddrafft. Bod y Cabinet yn argymell cynnydd mewn ffioedd a chostau dewisol o 3.8% o leiaf fel yr amlinellir yn atodiad 6, gan adlewyrchu prif gyfradd chwyddiant ym mis Medi 2025. |
| **Additional Information:** | | | | |
| | | | | |
| | | | | |
| | | | | |